PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol: **24 Hydref 2024**

Cadeirydd:	**Cynghorydd R.Phillips**
Cynghorwyr:	N.Goldup-John, L.Heard, J.Henton, D.Keogh, R.Mizen, P.A.Rees, S.H.Reynolds, P.Rogers a/ac B.Woolford
Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:	A. Amor a/ac M.Caddick
Swyddogion sy'n Bresennol	H.Lervy, C.Millis, A.Thomas, R.Crowhurst, C.Morris, Z.Ashton, J.Haeney, H.Jones, G. Powell, A.Spooner-Cleverly, S Griffiths, D.Evans, J.Jones a/ac P.Chivers
Gwahoddedigion y Cabinet:	Cynghorwyr N.Jenkins a/ac C.Phillips

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024 fel cofnod cywir.

4. **YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR**

Trafododd yr Aelodau eitemau o Flaenraglen Waith y Cabinet

(a) **Strategaeth Cynnwys Pobl Ifanc**

Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid fod angen y strategaeth i gyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor ac i hyrwyddo ymagwedd aml-asiantaeth at gefnogi pobl ifanc.

Holodd yr Aelodau a fyddai cynllun gweithredu pellach a sut y byddai'n cael ei olrhain a'i fonitro. Dywedodd yr aelodau nad oedd pwyntiau gweithredu'r strategaeth wedi'u dyddio. Gofynnodd yr Aelodau a oedd bwriad i fapio darpariaeth y trydydd sector, ac, os felly, a allai Cydlynwyr Ardaloedd Lleol y Gwasanaethau Cymdeithasol gynorthwyo.

Cadarnhaodd swyddogion fod y strategaeth yn cynnwys dechrau cynllun gweithredu, y gobaith oedd y byddai'r Grŵp Strategaeth Cynnwys Pobl Ifanc yn cael ei ailsefydlu ac y gallent ddatblygu eu cynllun gweithredu eu hunain y gallent ei fonitro. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc ac mae dealltwriaeth dda o fapio'r trydydd sector mewn perthynas â'r materion hynny. Mae grwpiau gweithredol aml-asiantaeth sefydledig ar waith.

Mynegodd yr aelodau bwysigrwydd mapio wrth symud ymlaen a sut y gallai hyn helpu pan roedd cyllid cyfyngedig ar gael.

Cadarnhaodd swyddogion y bydd barn yr aelodau'n cael ei gyflwyno i'r Grŵp Strategaeth Cynnwys Pobl Ifanc, unwaith y bydd wedi'i ffurfio.

Yn dilyn gwaith craffu, cefnogodd yr aelodau'r argymhelliad a amlinellwyd yn adroddiad drafft y Cabinet.

(b) **Rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith mewn lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd ac uwchradd ac ysgolion pob oed ac addysg ôl-16**

Rhoddodd Bennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Phartneriaethau drosolwg byr o'r adroddiad.

Dywedodd yr Aelodau fod nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cynyddu ond nad oedd digon o gyllid i fynd i'r afael â hyn.

Cytunodd Bennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Phartneriaethau ei bod yn sefyllfa anodd gyda niferoedd cynyddol o blant ag ADY. Mae'n anodd rhagweld niferoedd gan fod plant ag anghenion cymhleth yn symud i'r fwrdeistref. Mae grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ADY wedi cael eu defnyddio i gefnogi ysgolion. Mae cymorth ehangach ar gael o hyfforddiant, gyda gwasanaethau cefnogi'n ymweld ag ysgolion i helpu gyda darpariaeth ac asesu.

Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau fod darpariaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried yr holl ddarpariaeth arbenigol ar draws yr awdurdod a'r angen a ragwelir, gan weithio'n agos gyda meysydd gwasanaeth eraill i sicrhau bod digon o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion. Cydnabyddir y gallai fod angen darpariaeth ychwanegol ar rai disgyblion. Er mwyn mynd i'r afael â hyn mewn ysgolion prif ffrwd, cynigir cymorth allgymorth ychwanegol i'r disgyblion hyn. Gwneir gwaith gydag Ysgol Maes y Coed i sicrhau bod staff sy'n cefnogi pobl ifanc yn cael cefnogaeth, hyfforddiant a chyngor.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes yn cydnabod y pwysau ar gyllidebau ysgolion. Mae llai o bwysau ariannol mewn Canolfannau Cymorth Dysgu ac Ysgolion Arbenigol, ond ni ellir ystyried hyn ar ei ben ei hun. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu ysgolion prif ffrwd ac mae angen diwallu anghenion pobl ifanc yn yn y gyllideb addysg yn ei chyfanrwydd ac nid o fewn Canolfannau Cymorth Dysgu yn unig. Nodwyd, os nad yw anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu, gallai hyn arwain at leoliadau y tu allan i'r sir a phwysau cyllidebol uwch. Gwnaeth y Cyfarwyddwr sylw ar bapur CLlLC a gyhoeddwyd yn ddiweddar a oedd yn amlinellu pwysau mewn gwasanaethau cyhoeddus llywodraeth leol a thynnwyd sylw at dros £100m o bwysau heb ei ariannu yn y maes addysg yng Nghymru. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nifer cynyddol o achosion o ADY mewn ysgolion. Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae'r cynnydd yn ADY wedi bod o fewn y Blynyddoedd Cynnar yn bennaf.

Cytunodd Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar fod yr amserlenni ar gyfer diwygio ADY yn dynn, ond canmolwyd y tîm ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Nid yw diwygio ADY yn cael ei

ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi pwysau ar awdurdodau lleol. Anogwyd yr holl aelodau i lobïo Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am gyllid llawn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrth yr aelodau, pan gyflwynodd Lywodraeth Cymru'r ddeddfwriaeth, daeth yr asesiad effaith i'r casgliad na fyddai unrhyw gost ychwanegol i awdurdodau lleol ac felly ni ddarparwyd cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Roedd rhywfaint o gyllid grant untro ar gael ond dim cyllid craidd. Awgrymwyd y dylid adolygu asesiad effaith Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

(c) **Cyllideb 2025/26**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes wrth aelodau fod Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr atebol yn gweithio i gyflawni'r cynigion arbedion gofynnol ar draws yr awdurdod lleol. Yr egwyddorion arweiniol, lle bo'n bosib, oedd cynyddu incwm, talu costau craidd yn erbyn grantiau, diogelu gwasanaethau cyhoeddus a swyddi. Nid yw'r cyfnod ymgynghori wedi dechrau eto, ac roedd y cynigion a gyflwynwyd i'r aelodau'n rhan o ymarfer ymgysylltu cyn ymgynghori i dderbyn sylwadau a syniadau'r aelodau. Mae cynigion yn seiliedig ar wybodaeth sy'n hysbys ar hyn o bryd a'r dybiaeth y bydd grantiau a lefelau cyllid yn parhau. Nid yw'r holl fanylion ar gael o hyd, fodd bynnag, os yw'r cynigion yn rhan o'r cynigion ymgynghori swyddogol, bydd rhagor o fanylion ar gael.

Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r cyfeirnod cynigion cyllideb ELL-A – ELL-G fel a nodwyd yn y pecyn agenda. Mae'r arbedion ar gyfer Parc Gwledig Margam yn rhan o gynllun tair blynedd a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau ym mis Ionawr, a fydd yn cynnwys y cynllun busnes newydd a'r adolygiad parcio. Mae digwyddiadau newydd wedi'u cyflwyno yn y parc. O ran staffio, bu ychydig o ddatblygiad staff, ac mae un aelod o staff wedi mynegi diddordeb mewn ymddeol. Mae ychydig o oedi i brosiect sinema Canolfan Celfyddydau Pontardawe, ond y gobaith oedd y bydd hyn ar agor er mwyn masnachu ym mis Mawrth 2025. Mae arbedion wedi eu gwireddu o ganlyniad i gau Pwll Nofio Pontardawe. Mae cyfleuster arlwyo newydd wedi'i gyflwyno yn Aqua Splash yn Aberafan, sy'n cael ei weithredu gan Hamdden Celtic. Mae rhai ysgolion yn adolygu'r cytundeb lefel gwasanaeth sydd ganddynt ar gyfer y Gwasanaeth Adnoddau Addysg a Dysgu (ELRS). Mae'r arbedion yn y maes ELRS yn ymwneud â newid y defnydd o dechnolegau.

Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch diswyddiadau staff posib a swyddi gwag sydd heb eu llenwi. Dywedodd yr Aelodau nad oedd Parc Gwledig Margam yn gwneud arbedion ar hyn o bryd a gofynnwyd sut y bydd arbedion yn cael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dywedodd yr Aelodau fod gwelliannau i fasnachu hamdden dan do yn seiliedig ar forâl staff a gan ystyried nad oedd Hamdden Celtic yn newid i wasanaeth mewnol y flwyddyn nesaf, a fyddai morâl staff yn galluogi'r arbedion hyn i gael eu cyflawni.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y gallai ffactorau fel tywydd gwael effeithio ar unrhyw ragfynegiad o incwm uwch . Roedd modd cyflawni'r targed ar draws y gyfres o wasanaethau'n fras, gyda'r gallu i or-gyflawni mewn rhai meysydd, megis y sinema a'r cyfleuster arlwyo newydd yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe. O ran Parc Gwledig Margam, nid yw'r incwm a ragwelir yn statig yn ystod y flwyddyn ac mae'n dibynnu ar dywydd a digwyddiadau sydd wedi'u trefnu. Nid oedd y Cyfarwyddwr yn ymwybodol o unrhyw bwysau cyllidebol a ragwelir ym Mharc Margam. Cydnabu'r Cyfarwyddwr fod risgiau'n wynebu'r ELRS. Mae ysgolion yn ceisio arbed arian ar feysydd anstatudol, oherwydd pwysau cyllidebol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y cyfeirnod cynnig cyllideb ELLL-D a gofynnwyd am ddadansoddiad pellach.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod rhan o'r ffi reoli a ddarparwyd i Hamdden Celtic ar gyfer cynnal Pwll Nofio Pontardawe a gan fod y pwll wedi cau, bydd arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cyflawni. Mae astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal ar hyn o bryd i nodi tir a chyllid ar gyfer pwll newydd. Mae risg wrth symud ymlaen, pe bai tir a chyllid yn cael eu nodi, byddai'n rhaid cynnwys y cymhorthdal unwaith eto.

Holodd yr aelodau a oedd cynlluniau tymor hir ar gyfer y tir gwastraff ar ddiwedd Ffordd y Dywysoges Margaret ar lan môr Aberafan? Holodd yr aelodau a ellid defnyddio'r tir dros dro i ddarparu cyfleusterau parcio ar gyfer faniau gwersylla am ffi.

Dywedodd Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wrth aelodau fod y tir wedi'i ddyrannu ar gyfer tai o fewn y Cynllun Datblygu Lleol presennol sydd wrthi'n cael ei adolygu. Mae opsiynau ar gyfer defnydd o'r tir yn y dyfodol yn cael eu hystyried, gellid defnyddio'r tir ar gyfer tai, defnydd masnachol neu gymysgedd o'r ddau. Mae

Strategaeth Adfywio Glan y Môr yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a chafodd aelodau eu hannog i rannu eu barn.

Rhoddodd Bennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid drosolwg o gynnig cyllideb ELLL-H – ELLL-J a gynhwysir o fewn y pecyn agenda. Roedd gwybodaeth yn gyfyngedig ar hyn o bryd, gan fod bron iawn yr holl arbedion arfaethedig yn ymwneud â swyddi. Fodd bynnag, roeddent yn hyderus y byddai diswyddiadau gorfodol yn cael eu hosgoi. Nodwyd bod y cynnig ar gyfer ailgodi tâl llawn ar gyfer costau glanhau yn anodd gan fod cyllidebau ysgolion dan bwysau. Mae adolygiad a arweinir yn allanol o'r holl drefniadau presennol mewn perthynas â chludiant rhwng y cartref a'r ysgol, mae'r gwaith hwn yn croesi'r Cyfarwyddiaethau Amgylchedd ac Addysg.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch plant nad oedd darpariaeth ar eu cyfer yn y system cludiant rhwng y cartref a'r ysgol bresennol a goblygiadau posib yr adolygiad.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod yr adolygiad o gludiant rhwng y cartref a'r ysgol wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ac ni fydd yn newid hawlogaeth unrhyw ddisgybl. Mae polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol Llywodraeth Cymru yn glir ond efallai y bydd rhai teuluoedd ychydig y tu allan i'r meini prawf, a chydnabuwyd bod hyn yn anodd i rai teuluoedd.

Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch y defnydd o ymgynghorwyr allanol a theimlwyd y gallai'r adolygiad fod wedi cael ei gynnal gan staff presennol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes wrth aelodau na fyddai'r adolygiad o gludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn arwain at golli unrhyw swyddi o ganlyniad i benodi ymgynghorwyr allanol. Nodwyd bod y gyllideb a'r strategaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei chadw gan y Gyfarwyddiaeth Addysg, ond caiff y gwaith comisiynu a chaffael ei wneud gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd. Awgrymwyd y gallai'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ddarparu rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor.

Holodd yr Aelodau sut caiff yr ymgynghorwyr allanol eu monitro ac a yw'r swm o arbedion a gyflawnwyd yn hysbys. Nodwyd ei fod yn gostus ymgysylltu ag ymgynghorwyr.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch disgyblion a allai gael eu heffeithio gan yr adolygiad o gludiant rhwng y cartref a'r ysgol a gofynnwyd i ganlyniadau'r adolygiad, unwaith y bydd wedi dod i ben, gael eu rhannu gyda'r pwyllgor.

Mewn perthynas â chynnig cyllideb ELLL-I, holodd yr aelodau a oedd unrhyw fodelu wedi'i wneud o ran ysgolion cynradd sy'n gadael darpariaeth yr awdurdod lleol.

Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid wrth aelodau fod gwaith modelu helaeth wedi'i wneud yn y gorffennol mewn perthynas ag ailgodi tâl llawn ar gyfer cynnig yr ysgolion. Mae ysgolion yn ymwybodol o'r gwasanaethau a gynigir gan yr awdurdod lleol, sy'n fwy na'r hyn a fyddai ar gael drwy ddarparwyr allanol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod y strategaeth arbedion hon yn cael ei chyflwyno os nad oedd angen i ysgolion ddarparu arbedion effeithlonrwydd eraill. Mae ysgolion yn wynebu pwysau cyllidebol a byddai tair ysgol mewn diffyg ariannol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Dyma'r unig doriad yn y gyllideb ar hyn o bryd a fyddai'n effeithio ar y gyllideb ysgol ddirprwyedig.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar fod cyllid Cyngor Castell-nedd Port Talbot fesul disgybl yn un o'r isaf yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion uwchradd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r gyllideb ysgol ddirprwyedig wedi cynyddu o 7.9% i 8.4%, ond roedd y lefel gychwynnol yn isel ac yn hanesyddol mae diffyg cyllideb yn y gyllideb ysgol ddirprwyedig.

Dywedodd y Pennaeth Datblygu Addysg wrth aelodau fod aelod allweddol o staff wedi cael secondiad i Lywodraeth Cymru am ddeuddydd yr wythnos i gefnogi gwaith ar y cwricwlwm, ac mae hynny wedi arwain at arbediad.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes at gynnig cyllideb ELLL-L a dywedwyd wrth yr aelodau fod yr arbedion yn gysylltiedig â chostau etifeddol sy'n gysylltiedig â'r mynediad cynnar at gronfeydd pensiwn, ac roedd hyn wedi lleihau dros amser wrth i aelodau'r cynllun pensiwn farw.

Rhoddodd Bennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Chyfranogiad drosolwg i'r aelodau o gynigion cyllideb ELLL-M i ELLL-O a nododd fod dwy swydd yn y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r

Tîm Anawsterau Dysgu wedi'u gwrthbwyso yn erbyn cyllid grant. Mae darn o waith yn mynd rhagddo gyda phlant hŷn yn benodol gydag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn wedi'i wrthbwyso yn erbyn cyllid grant ar gyfer y flwyddyn hon.

Holodd yr Aelodau a oedd y grantiau sy'n cael eu gwrthbwyso yn eu herbyn yn bodoli o'r blaen, ac a oeddent yn ariannu unrhyw beth sydd wedi cael ei golli gan fod y cyllid bellach yn cael ei wrthbwyso yn erbyn costau staffio?

Cadarnhaodd Bennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Chyfranogiad fod y grantiau eisoes yn bodoli ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Wrth i'r gwaith ddod i ben, mae gwaith newydd yn cael ei wneud.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod y cynigion yn seiliedig ar dybiaeth y bydd y grantiau presennol yn parhau, ac roedd hyn yn risg nes i gyllideb Llywodraeth y DU gael ei chyhoeddi. Bydd y cynnig hwn yn cael ei adolygu os oes unrhyw newidiadau i gyllid grant a chydnabuwyd na fydd yr ymagwedd hon yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Amlinellodd Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd gynigion cyllideb ENV-Q i ENV-Z sy'n ymwneud â Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, ym meysydd gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, Diogelu Bwyd ac Iechyd. Nodwyd bod y cynigion yn anodd a'u bod yn gymysgedd o syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm a lleihau llinellau cyllideb amrywiol. Bydd y cynigion yn effeithio ar swyddi a chyflwyno gwasanaethau.

Gan gyfeirio at gynnig ENV-Q, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy gyflwyno targed incwm cynyddol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth Rheoli Pla. Nodwyd, yng ngoleuni'r lefelau presennol o alw am wasanaethau a pherfformiad, bod potensial i gyflawni'r targed incwm uwch hwn heb gynyddu ffïoedd.

Gan gyfeirio at gynnig ENV-R, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod effaith bosib ar y Gwasanaeth Rheoli Datblygiad Cynllunio oherwydd mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn cynnal ymgynghoriadau fel rhan o'r broses gynllunio. Fodd bynnag, nodwyd y gellid adennill costau o'r fath drwy incwm ffïoedd a gynhyrchir drwy unrhyw Gytundebau Perfformiad Cynllunio sefydledig.

Gan gyfeirio at gynnig ENV-X, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod goblygiadau gyda'r cynnig hwn gan ei fod yn tanseilio cynllunio ar gyfer olyniaeth wrth symud ymlaen. Gall unrhyw ostyngiad yng nghyllideb ffïoedd proffesiynol penodol y gwasanaeth olygu y bydd y ganolfan gorfforaethol yn cael ei defnyddio wrth ymdrin ag achosion erlyn sy'n arbennig o gymhleth.

Gan gyfeirio at gynnig ENV-Y, nododd y Pennaeth Gwasanaeth y bydd aelodau'n debygol o fod yn ymwybodol bod y gwasanaeth yn cael trafferth gyda'r gwasanaethau rheoleiddio statudol y mae'n eu darparu ac mae eisoes wedi rhoi'r gorau i ddarparu rhai swyddogaethau/gwasanaethau dewisol. Mae yna effaith bosib pellach pe bai'r cynnig cyllideb hwn yn cael ei ddatblygu.

Mae cynnig cyllideb ENV-Z yn ymwneud â'r Gwasanaeth Diogelu Bwyd ac Iechyd. Mae swydd ran-amser wag ar hyn o bryd o fewn y strwythur, clustnodwyd cyllid ar gyfer y swydd at ddibenion cynllunio ar gyfer olyniaeth. Cynlluniwyd i'r swydd wag gael ei newid i swydd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd dan hyfforddiant i oresgyn problemau recriwtio. Yn y tymor hwy, byddai'r cynnig hwn, pe bai'n cael ei ddatblygu, yn tanseilio cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Gofynnodd yr Aelodau am hyfforddiant ar faterion sy'n cael eu cynnwys o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar gynigion ENV-X-ENV-Z a'r pwysau y byddai'r cynigion hyn yn rhoi ar yr adran wrth sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni'r safonau gofynnol. Trwy wneud toriadau pellach roedd risg na fyddai'r adran yn cyflawni ei dyletswyddau statudol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, yn hanesyddol, adroddwyd am faterion iechyd yr amgylchedd i'r pwyllgor hwn ond wrth symud ymlaen efallai nad hwn oedd y strwythur mwyaf addas. Cytunodd y Dirprwy Arweinydd gyda sylwadau blaenorol a wnaed ynghylch y patrymau gwariant hanesyddol mewn perthynas â'r gyllideb ysgol ddirprwyedig. Roedd y weinyddiaeth bresennol yn ymwybodol o'r angen i fynd i'r afael â hyn, ond roedd anawsterau o ystyried y caledi parhaus a wynebir gan y Cyngor. Anogodd y Dirprwy Arweinydd yr aelodau i gyflwyno sylwadau i'r llywodraeth mewn perthynas â'r angen am fuddsoddiad i wasanaethau cyhoeddus ar bob lefel.

Dywedodd yr Aelodau nad oedd digon o fanylion yng nghynigion y gyllideb a gofynnwyd am amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad ar y

gyllideb. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am eglurhad ynghylch y sefyllfa ariannu fesul disgybl, a allai fod yn wahanol i awdurdodau lleol eraill.

Cadarnhaodd Bennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid fod adroddiad wedi'i drefnu i graffu ar Bwysau Cyllideb Ysgolion a fyddai'n cynnwys rhagor o wybodaeth am gyllid fesul disgybl.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrth aelodau mai dyma'r tro cyntaf i gynigion y gyllideb gael eu cyflwyno i'r aelodau yn ystod y cam cynnar hwn yn y broses. Roedd y cynigion yn cynrychioli'r cynlluniau cynnar a nodwyd i fodloni targedau. Mae'r cynigion cynnar yn seiliedig ar ragdybiaethau gan nad yw'r gyllideb wedi'i chyhoeddi eto. Gobeithiwyd, yn dilyn trafodaeth wrth graffu, y gallai aelodau awgrymu cynigion amgen i helpu i lywio'r cynigion terfynol. Caiff trafodaethau yn ystod pwyllgorau craffu eu hystyried gan swyddogion, gyda gwybodaeth o gyhoeddiad cyllideb yr wythnos nesaf, a fydd yn rhoi syniad o'r effaith bosib ar gyllideb Cymru; Caiff y setliad llywodraeth leol ei gyhoeddi yng nghanol mis Rhagfyr. Cynhelir cyfarfod y Cabinet arbennig ar 11 Rhagfyr i ystyried rhagor o fanylion mewn perthynas â'r cynigion i fwrw ymlaen ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Bydd asesiadau effaith unigol ar gael unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi penderfynu ar y cynigion terfynol. Bydd y pwyllgor craffu hwn yn cyfarfod ar 16 Ionawr i ystyried y cynigion ymhellach gyda'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 17 Ionawr. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd swyddogion yn datblygu cynigion terfynol i'w hystyried gan y Cabinet ar ddiwedd mis Chwefror, gyda'r Cyngor yn cyfarfod wythnos yn ddiweddarach.

Rhoddwyd gwybod i'r holl aelodau fod Seminar i'r holl aelodau'n cael ei gynnal ar 28 Tachwedd ar gyfer hyfforddiant cyllidebol a ddarperir gan CLlLC.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr aelodau'r adroddiad a'r awgrymiadau a'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan y pwyllgor.

5. YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU

Trafododd yr Aelodau eitemau o Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu.

(a) Cynlluniau Gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes

Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Addysg drosolwg byr o'r adroddiadau a gynhwysir yn y pecyn agenda. Caiff y pum cynllun Gwella Gwasanaethau eu cynnwys yn y Cynllun Gwella'r Gyfarwyddiaeth ac maent yn cysylltu â'r Cynllun Gwella Corfforaethol.

Cyfeiriodd yr aelodau at y cyfeiriad at foreau coffi ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn ddewisol a holwyd am y lefel ymgysylltu. Dywedodd yr Aelodau fod nifer y plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn ddewisol yn cynyddu a bod pryder ynghylch y diffyg monitro a goruchwylio.

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Addysg fod rhwng 30 a 40 o deuluoedd ar gyfartaledd yn dod i bob sesiwn. Cynhelir y sesiynau hyn ar y cyd mewn partneriaeth â'r adran iechyd, yr heddlu a Gyrfa Cymru. Mae'r coleg wedi dod i sesiynau ac wedi darparu amrywiaeth o sioeau teithiol ar bynciau fel troseddau cyllyll, diogelwch sgwteri, diogelwch ar y rhyngrwyd a dysgu drwy chwarae gan efallai na fyddai gan rai teuluoedd fynediad at y rhain y tu allan i system yr ysgol.

Holodd yr aelodau pa ganran o'r teuluoedd sy'n derbyn addysg yn y cartref yn ddewisol sy'n dod i'r sesiynau'r bore coffi. Nodwyd nad oedd cofrestr, ac mae hwn yn broblem.

Dywedodd y Pennaeth Datblygu Addysg wrth aelodau nad oedd canran y teuluoedd a oedd yn dod i'r sesiynau o gyfanswm y teuluoedd sy'n derbyn addysg yn y cartref yn ddewisol yn hysbys. Dilynir canllawiau Llywodraeth Cymru a'r gobaith yw y bydd mwy o deuluoedd yn bresennol yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch yr asesiadau risg a gynhwysir yn yr adroddiad, a sut y cânt eu defnyddio ar gyfer monitro.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod Cynlluniau Gwella Gwasanaethau ar gyfer pob rheolwr atebol o fewn y Gyfarwyddiaeth ac asesir y risgiau o fewn timau. Mae'r Cynlluniau Gwella Gwasanaethau'n cael eu crynhoi yng Nghynlluniau Gwella Gwasanaethau Cydlynwyr, sydd yn eu tro yn cael eu crynhoi yng Nghofrestr Risgiau'r Gyfarwyddiaeth.

Gofynnodd yr Aelod i gyfarfod â swyddogion y tu allan i'r cyfarfod er mwyn derbyn eglurhad pellach.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad

6. MONITRO PERFFORMIAD

Nid oedd adroddiadau monitro perfformiad i'w hystyried.

7. DETHOLIADAU O EITEMAU I GRAFFU ARNYNT YN Y DYFODOL

Hysbyswyd yr aelodau gan swyddogion o eitemau newydd a oedd wedi cael eu hychwanegu at Flaenraglen Waith y Cabinet a newidiadau i Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn am eitemau pellach i'w hystyried.

Cytunodd yr Aelodau i ychwanegu'r eitemau canlynol at Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu:

- Cam Ehangu Dechrau'n Deg 3 – 5 Rhagfyr 2024
- Adolygiad Maes Parcio Parciau Gwledig – 5 Rhagfyr 2024

Nododd yr Aelodau'r Flaenraglen Waith.

8. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Cynghorydd R.Phillips
CADEIRYDD